Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais am grant	Lleoliad yng Nghymru	Gwlad yn Affrica	Thema
ResponsABLE assistance	Cloddfa i wneud twll turio a yrrir gan ynni'r haul a rhoi cymorth/hyfforddiant i aelodau grŵp Fursa ar reoli dŵr, dosbarthu a gwarchod y pridd. Hyfforddiant i holl aelodau grŵp Fursa ar y newid yn yr hinsawdd ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.	£24,933.64	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Ynys Môn, Casnewydd, Powys, Abertawe, Torfaen	Kenya	Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd
The Potter's House CBO	Darparu 120 eitem o gyfarpar cynorthwyol sy'n newid bywydau i blant anabl yn Kenya, gyda chymorth ychwanegol i deuluoedd. Bydd 10 gweithiwr cymunedol yn cael eu haddysgu am anableddau dysgu a sut i gefnogi'r teuluoedd. Bydd teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn cael cyflogaeth. Bydd Plant yng Nghymru yn dysgu sgiliau Technoleg Briodol ar Bapur (APT) ac yn dysgu am broblemau byd-eang.	£6,486.96	Powys	Kenya	Iechyd
Brecon Molo Community Partnership (BMCP)	Mae gan Nakuru glwb Para foli (pêl foli ar eich eistedd) yn y ddinas. Mae'r clwb yn dymuno hyrwyddo ei chwaraeon ymhlith pobl anabl sy'n byw yn ardaloedd gwledig y sir. Hoffai'r BMCP ac MBCBO hefyd ddefnyddio'r daith hon fel ymarferiad i godi ymwybyddiaeth o anableddau ymhlith y gymuned abl ehangach.	£2,572.00	Powys	Kenya	Dysgu Gydol Oes

Treeflights Ltd	Byddwn ni'n ehangu'r blanhigfa gymunedol yn Kenya fel ei fod yn lluosogi 1.25 miliwn o goed bob blwyddyn, yn cefnogi 2 reolwr Siop Hinsawdd rhan-amser yng Ngorllewin Cymru ac yn cyllido ymweliad cyfnewid dwy ffordd gyda 10 o wirfoddolwyr siop sy'n ymweld â Kenya a 2 staff prosiect o Affrica sy'n ymweld â Chymru	£15,000.00	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion	Kenya	Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd
Engineers for Overseas Development Limited	Adeiladu cyfleusterau WASH (gwasanaethau dŵr, glanweithdra a hylendid) i 300 o ddisgyblion a'u hathrawon ym Meithrinfa ac Ysgol Gynradd Faith, pentref Kwarikwar yn Bukedea, Uganda. Mae'r ffordd y caiff cyfleusterau WASH cynaliadwy eu cynllunio a'u hadeiladu yn rhoi hyfforddiant galwedigaethol i wirfoddolwyr ifanc yng Nghymru, a hefyd yn rhoi hyfforddiant adeiladu ar y safle i unigolion o'r gymuned leol.	£22,510.84	Caerdydd, Ynys Môn, Casnewydd, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Bro Morgannwg	Uganda	Dysgu Gydol Oes
HIV Lesotho	Bydd Ysgol Uwchradd Tebellong mewn rhan wledig o Lesotho yn ehangu cydaddysg holistaidd, gan gydweithio ar-lein ag Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala. Bydd addysgu cyfrifiaduron mewn ystafell ddosbarth, Amaethyddiaeth Cadwraeth ac ystafell gysgu newydd i ferched, bloc toiledau a chegin yn creu amgylchedd diogel, ysgogol ac ariannol gynaliadwy ar gyfer 60 o ferched pentref gwledig ac 120 o ddisgyblion eraill.	£14,000.00	Gwynedd	Lesotho	Dysgu Gydol Oes

Chomuzangari Women's Cooperative	Nod y prosiect arfaethedig yw darparu cynhyrchion mawr eu hangen a hyfforddiant meithrin capasiti er mwyn gwella iechyd a lles menywod a merched, gan hefyd ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a lleihau'r effaith y mae padiau mislif untro yn ei chael ar yr amgylchedd. Bydd y prosiect yn rhoi cynhyrchion mislif amldro i 2000 o fenywod a merched mewn angen, ac yn cynnal gweithdai meithrin capasiti ar gyfer menywod a merched ar iechyd mislif, hylendid, iechyd rhywiol ac atgenhedlu.	£25,000.00	Abertawe	Zimbabwe	Iechyd
Africa Cancer Action Trust	Mae canser yn achosi fwyfwy o farwolaethau a morbidrwydd mewn gwledydd incwm isel. Un o'r prif anawsterau wrth fynd i'r afael â hyn yw'r prinder sgiliau diagnostig. Nod y cynnig hwn yw helpu i hyfforddi meddygon yn Uganda ar ddiagnosio canser yn gywir drwy greu cwrs a redir gan Histopatholegwyr yng Nghymru.	£10,000.00	Caerdydd, Abertawe	Uganda	Iechyd
Prifysgol Abertawe – Ysgol Feddygol	Gall yr effeithiau ar oresgynwyr trais rhywiol sy'n ymwneud â gwrthdaro fod yn hirfaith ac yn ddifrifol. Bydd y prosiect hwn yn cefnogi ymdrechion eithriadol Ysbyty Panzi yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo i reoli'r anafiadau a achosir gan drais rhywiol sy'n ymwneud â gwrthdaro drwy fodelau hyfforddi 3D newydd ac opsiynau adlunio meinweoedd meddal.	£20,372.00	Abertawe	Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo	Iechyd